

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 1 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 5 Medi 2018 am 09:30.**

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 14
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 16/04/2018 a 24/05/2018.
4. Diweddariad ar Raglen Waith 15 - 24
5. Caeau Chwarae, Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored a Pafiliynau Parciau 25 - 34

Gwahoddedigion:

Mark Shephard, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau
Cllr Richard Young, Yr Aelod Cabinet dros Gymunedau
Zak Shell, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.

6. Materion Brys
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidiad testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

K Watson

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol

Dosbarthiad:

Cynghowrwyr

JPD Blundell

NA Burnett

RJ Collins

PA Davies

SK Dendy

DK Edwards

Cynghorwyr

J Gebbie

M Jones

DG Owen

B Sedgebeer

RME Stirman

LM Walters

Cynghorwyr

KJ Watts

CA Webster

AJ Williams

JE Williams

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD LLUN, 16 EBRILL 2018

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 16 EBRILL 2018, AM 09:30

Presennol

Y Cyngorydd CA Webster – Cadeirydd

JPD Blundell
J Gebbie
LM Walters

NA Burnett
M Jones
AJ Williams

SK Dendy
JC Radcliffe

DK Edwards
B Sedgbeer

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JH Tildesley MBE

Cynrychiolwyr Cofrestredig

William Bond

Sector Ysgolion Arbennig

Swyddogion:

Sarah Daniel
Rachel Keepins

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu

Gwahoddedigion:

Susan Cooper

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau
Cymdeithasol a Lles

Nicola Echanis
Lindsay Harvey

Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a
Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro)

Laura Kinsey

Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant

16. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau o fudd personol gan y Cyng. JC Radcliffe a'r Cyng. C Webster o ran eitem 5 yr agenda.

17. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08.02.2018 fel rhai gwir a chywir.

18. DIWEDDARIAD AM Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd Gwasanaethau Gweithrediadol a Phartneriaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad i'r pwyllgor am Flaenraglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Gofynnodd aelod i'r wybodaeth ychwanegol ganlynol gael ei chynnwys yn yr adroddiad am wasanaethau cymunedol: Pa gyllid grant gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael ei leihau a beth yn union yw'r swm hwn.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyodd aelodau'r adborth o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testunau 1 gan nodi'r rhestr ymatebion:

19. CYMORTH CYNNAR A GOFAL CYMDEITHASOL PLANT

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles am Gymorth Cynnar a Gofal Cymdeithasol Plant i roi gwybodaeth i aelodau yr oeddent wedi gofyn amdani ynglŷn â chydweithio rhwng cyfarwyddiaethau.

Ymhelaethodd y Rheolwr Grŵp dros Weithio Integredig a Chymorth i Deuluoedd ar brif bwytiau'r adroddiad, gan gynnwys sut mae cyfarwyddiaethau'n gweithio'n agos gyda'i gilydd a hefyd gyda nifer o asiantaethau allanol.

Cyfeiriodd aelod at 4.11 yr adroddiad lle nodwyd bod nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu 80%. Gofynnodd sut roedd hyn wedi effeithio ar weithwyr achos a sut mae wedi effeithio ar yr awdurdod lleol yn ariannol.

Gofynnodd hefyd sut roedd yr atgyfeiriadau i'r project ACE yn cael eu rheoli o'r blaen.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp dros Wasanaethau Integredig a Chymorth i Deuluoedd eu bod yn ystyried trothwyon mewn cymorth cynnar megis Cysylltu Teuluoedd. Caiff atgyfeiriadau eu gwirio o fewn 24 awr ac ar ôl eu hasesu, caiff gweithiwr cymdeithasol ei neilltuo i'r teulu neu efallai bydd y teulu'n mynd at weithiwr ymyrraeth, gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achos. Ychwanegodd fod atgyfeiriadau gan ysgolion yn cyfateb i 10% o'r holl atgyfeiriadau i'r gwasanaeth a bod ymagwedd ar y cyd gyda chydweithwyr diogelu yn eu helpu i nodi peryglon a heriau. Ychwanegodd nad oedd unrhyw restr aros sylweddol ond bod y sefyllfa honno'n cael ei monitro'n gyson.

Nododd aelod y buasai'n ddefnyddiol petai data wedi cael ei dderbyn am Blant sy'n Derbyn Gofal er mwyn cymharu data ac archwilio'r tueddiadau. Nododd swyddogion nad oedd y data ganddynt ar hyn o bryd ond y byddent yn ei rannu ag aelodau ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd aelod am natur y perthnasoedd rhwng yr awdurdod a Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r trydydd sector o ran cefnogaeth ar gyfer Cymorth Cynnar a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cydnabu Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod pwysau ar y gwasanaeth ac y cafwyd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ond nododd nad oedd CBSP yr unig un. Nododd fod y gwasanaeth yn adolygu sut mae'n gweithredu'n barhaus a bod y cyfarwyddiaethau'n parhau i weithio gyda'i gilydd. Ychwanegodd fod nifer o brojectau megis MASH a'r project Myfyrio'n dal yn cael eu datblygu felly nid oedd modd gwybod effaith lawn y rhain eto. Roedd swyddogion hefyd yn ystyried modelau a llwyddiannau mewn awdurdodau lleol eraill sy'n gweithio'n dda, a bydd swyddogion o CBSP yn ymweld â Chasnewydd, CNPT a Sir Gâr yn yr wythnosau nesaf.

Roedd aelodau'n pryderu am adnoddau a dyrannu cyllid grant, beth oedd peryglon posib i'r gwasanaeth a pha effaith gallai hyn ei chael ar yr awdurdod os nad oedd cyllid yn cael ei dderbyn.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod hyn yn berygl ond nododd eu bod yn ystyried ffyrdd gwahanol o weithio gan gynnwys rhannu adnoddau ag awdurdodau lleol eraill, gweithio'n fwy agos gydag ysgolion i sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn cael ei rheoli'n fwy lleol a hefyd gweithio gyda nifer o grwpiau eraill sy'n gweithio gyda'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed.

Gofynnodd aelod a oedd swyddogion ac aelodau'r Cabinet yn cyfathrebu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyllid projectau sydd mewn perygl.

Nododd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles eu bod bob amser yn rhagweithiol o ran cyllid ac nad ymateb adweithiol oedd hyn. Ychwanegodd eu bod yn gweithio trwy'r amser gyda'r Gweinidog dros Wasanaethau Plant.

Gofynnodd aelod am eglurhad o ran niferoedd y Plant sy'n Derbyng Gofal a oedd wedi cael eu symud cam i lawer i'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar a sut roeddent yn sicrhau bod gwasanaethau cam i lawr a cham i fyny'n cael eu hintegreiddio i'w gilydd.

Nododd y swyddog fod archwiliad sicrwydd ansawdd ar waith i blant a theuluoedd sy'n cael eu symud cam i fyny neu i lawr. Ychwanegodd eu bod yn ystyried prosesau, anawsterau a heriau a'u bod yn rhoi adborth am unrhyw feysydd i'w gwella a nodir.

Cyfeiriodd aelod at baragraff 4.20 yr adroddiad lle nodwyd bod 51 o blant wedi cael eu dychwelyd adref. Gofynnodd a oedd unrhyw wybodaeth ar gael am y cymorth parhaus yr oedd y plant yn ei dderbyn ac a oeddent yn cael eu monitro o hyd. Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y byddai hi'n anfon yr wybodaeth hon at aelodau ar ôl y cyfarfod.

Nododd aelod fod CBSP yn ymddangos ar y dadansoddiad tueddiadau croes i awdurdodau lleol eraill o ran lleihau niferoedd y plant sy'n derbyn gofal. Nododd fod Castell-nedd Port Talbot wedi llwyddo i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ond bod ffigur CBSP wedi cynyddu. Gofynnodd swyddogion a ydym yn dysgu unrhyw beth gan awdurdodau lleol eraill ac a ydym yn rhannu arfer gorau. Roedd yn pryderu fod ffigurau CBSP o ran plant sy'n derbyn gofal bellach wedi cynyddu i 389 a'i bod yn ymddangos bod hyn yn duedd cenedlaethol, nid rhywbeth sy'n lleol i Ben-y-bont ar Ogwr yn unig, ac roedd yn meddwl y dylai'r pwyllgor, efallai, gysylltu â Llywodraeth Cymru i gael cymorth ac atebion.

Nododd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd ag awdurdodau eraill ym mhartneriaeth Bae'r Gorllewin. Nododd fod Castell-nedd Port Talbot wedi ymgymryd â llawer o weithgaredd penodol i leihau nifer eu plant sy'n derbyn gofal a'u bod wedi trafod sut maent wedi cyflawni hynny. Ychwanegodd fod swyddogion hefyd wedi siarad â Chyngor Abertawe a roddodd gyflwyniad am eu paneli/prosesau ar gyfer cytuno i blant dderbyn gofal. Er bod CBSP yn aros am ffigurau sydd wedi'u cadarnhau, nododd fod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi lefelu ac roedd tuedd diwedd blwyddyn 2016/17 yn dangos bod ffigurau llawer o awdurdodau eraill yn cynyddu. Mae cydweithwyr mewn ambell awdurdod lleol arall yn parhau i adrodd am y broblem hon. Ychwanegodd y bydd Abertawe'n parhau rhagor o ymchwil fanwl i dueddiadau lleol y bydd yn ei rhannu â Chastell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

Hysbyswyd aelodau gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod awdurdodau lleol eraill yn dangos tueddiadau ar i fyny. Nododd fod ffigurau Caerdydd yn dangos bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o 555 i 834 dros y 4 blynedd diwethaf yn unig.

Bu aelodau'n croesawu'r adolygiad annibynnol o'r broses benderfynu ynghyd â'r llwybr plant sy'n derbyn gofal gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus a gofynnnon nhw am gopi o'r adroddiad pan fyddai hwnnw ar gael.

Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y comisiynwyd yr SGC i gynnal adolygiad yn sgîl yr arolygiad gan AGGCC (AGC erbyn hyn) o wasanaethau plant ym mis Ionawr 2017. Roedd arolygiad AGC yn waith sylweddol ac anfonwyd cryn nifer o adroddiadau at yr arolygwyr cyn iddynt fynd ar y safle. Roeddent yn gweithio yn yr awdurdod am bythefnos a chyfarfuont â sawl swyddog, aelod Cabinet, cadeirydd craffu a theulu. Yna comisiynwyd yr SGC i archwilio arweinyddiaeth ac adolygu'r llwybr atgyfeirio rhwng cymorth cynnar a gofal cymdeithasol plant.

Gofynnodd aelod a oedd modd i aelodau gael eu briffio am lwybr atgyfeirio plentyn mewn perygl drwodd i'r penderfyniad i fynd ag ef i'r system ofal er mwyn eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r broses gyfan a'i heffaith ar y teulu, y plentyn, yr awdurdod a'r gyllideb. Awgrymodd y gellid cynnwys argymhellion yr SGC hefyd. Awgrymodd aelod arall hefyd y dylai'r briffio roi cefndir i'r ffigurau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mai diben pennaf y penderfyniad i fynd â phlentyn i'r system ofal oedd ystyried diogelwch y plentyn a'i deulu ac a yw'r awdurdod yn gwneud y peth cywir trwy osod y plentyn yn y system ofal a rhoi cymorth iddo. Nododd nad yw'r awdurdod am gadw nifer y plant sy'n derbyn gofal yn isel ond bod angen i aelodau ddeall pwysigrwydd gwneud hyn yn ddiogel. Ychwanegodd fod adolygiad yr SGC wedi dod i'r casgliad ei fod yn benderfyniad cywir pan fo plentyn yn cael ei osod yn y system ofal; fodd bynnag, gofynnwyd a fyddai ymyrraeth gynt wedi osgoi gorfod mynd â'r plentyn i'r system ofal yn y lle cyntaf.

Gofynnodd aelod am y lleoliadau Baby in Mind a beth oedd canlyniadau'r achosion hyn. Nododd fod y lleoliadau hyn yn ddrud iawn a gofynnodd a oedd yr awdurdod yn ystyried atebion eraill megis cymorth yn y gymuned.

Nododd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant mai'r cymhelliad dros y lleoliadau hyn bob amser yw ariannu'r cynllun gofal mwyaf addas i'r plentyn a'r rhiant ac mai'r ateb gorau i'r teulu yw dod o hyd i leoliad rhiant a phlentyn. Mae'r project Baby in Mind yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar er mwyn gallu cynllunio'n fwy effeithiol ac osgoi gorfod mynd â phlant i'r system ofal.

Gofynnodd aelod a oedd yr awdurdod yn gwneud digon mewn ysgolion trwy ABCh a hefyd y gwasanaethau iechyd.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod ABCh yn rhan bwysig o addysg ac, er nad oedd modiwl gorfodol, y defnyddir ymagwedd fwy cydlynol a bod yr awdurdod yn gweithio ar draws cyfarwyddiaethau'n fwy agos. Ychwanegodd y cafwyd gostyngiad yn nifer y merched yn eu harddegau sy'n feichiog.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod gwaith ymyrryd wedi cael ei wneud yn flaenorol i gadw mamau yn yr ysgol a'u babanod gyda nhw ond nododd na fydd pob un ohonynt yn famau ifanc a bod angen cymorth ar rai yn eu 30au fel y gallent fyw bywyd teulu arferol.

Cyfeiriodd aelod at dudalen 46 yr adroddiad lle nodwyd nifer yr atgyfeiriadau a gofynnodd a oedd modd i unrhyw un o'r rhain fod yn atgyfeiriadau wedi'u dyblygu lle maent wedi cael eu hatgyfeirio i dimau diogelu a chymorth cynnar ar yr un pryd. Gofynnodd hefyd a fyddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â phlant a theuluoedd i drafod y pecyn cymorth gorau sydd ar gael iddynt.

Nododd y Rheolwr Grŵp dros Weithio Integredig a Chymorth i Deuluoedd y byddai enghreifftiau pan fyddai atgyfeiriad yn dod i dîm diogelu nad yw'n cyrraedd y trothwy, felly byddai'n cael ei atgyfeirio i gymorth cynnar fel atgyfeiriad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a byddai hyn yn ymddangos fel dyblygiad. Ychwanegodd y cynhelir nifer o drefniadau gwirio pan ddaw atgyweiriad i law yn gyntaf oherwydd gallai fod angen atgyfeirio'r mater i asiantaeth arall.

Gofynnodd aelod am broses Dechrau'n Deg a sut byddai'r awdurdod yn trin sefyllfa lle na fyddai'r teulu'n ymgysylltu â nhw.

Nododd y Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd y byddai swyddogion yn penderfynu a oedd angen iddynt atgyfeirio unigolion i wasanaethau statudol ond ychwanegodd nad yw'r awdurdod yn dod o draws llawer o achosion lle gwrthodir ymgysylltu. Ychwanegodd hefyd nad oeddent wedi gweld unrhyw ostyngiad eto yn yr arian ar gyfer y rhaglen gan Lywodraeth Cymru ond y gallai hyn ddigwydd yn y dyfodol. Cynigiodd hi sicrwydd y byddent yn ystyried ffyrdd eraill o dargedu'r gwasanaeth petai hyn yn digwydd, er mwyn parhau i roi cymorth.

Nododd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod yr adroddiad wedi codi'i galon a'i frwdfrydedd a bod y gwaith a wnaed yn y maes hwn yn aruthrol. Nododd fod y gwaith ar draws dwy gyfarwyddiaeth yn profi bod yr awdurdod yn rhagweithiol a diolchodd i'r holl swyddogion sy'n ymwneud â'r maes hwn am eu hymdrechion parhaus yn ystod cyfnod heriol.

Casgliadau

- Gofynnodd y pwyllgor am sesiwn frifio ar y broses o dderbyn plant i'r system ofal er mwyn dangos i aelodau sut mae'r broses yn gweithredu o adeg derbyn atgyfeiriad i wneud penderfyniad a phennu cymorth parhaus, yn ogystal ag unrhyw gostau cysylltiedig
- Gofynnodd y pwyllgor i hon gynnwys gwybodaeth am y broses fonitro sydd ar waith, sut caiff risg ei fonitro'n rheolaidd a pha broses fonitro sydd ar waith i lwybrau lle y diben yw dychwelyd y plentyn i'w deulu ei hun.
- Gofynnodd aelodau hefyd am sesiwn frifio debyg am Gymorth Cynnar, neu i gyfuno hon â'r un ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal, gan fanylu ar y broses atgyfeirio; sut mae'r broses symud cam i lawr neu gam i fyny'n gweithio ac yn cael ei monitro; sut, os bydd angen cymorth gan fwy nag un gwasanaeth ar unigolion, megis IFSS a Baby in Mind ar yr un pryd, byddai'r gwasanaethau'n cydweithio i ddarparu hwn; a phwy sy'n eu harwain trwy'r gwasanaethau a'u llwybr, neu'n arwain eu cymorth, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt – ai gweithiwr cymdeithasol fyddai'r person hwn?

Gwybodaeth Ychwanegol

- Gofynnodd y pwyllgor i adroddiadau yn y dyfodol am blant sy'n derbyn gofal neu Gymorth Cynnar ac ati gynnwys y canlynol:
 - Rhagor o ddata hanesyddol fel y gall aelodau asesu a oes cynnydd wedi'i wneud ac a oes cynnydd neu ostyngiad mewn niferoedd a pherfformiad;
 - Rhagor o dystiolaeth gliriach o'r canlyniadau a geir yn y prif adroddiad
 - Dadansoddiad o ba le mae plant sy'n derbyn gofal yn mynd, e.e. gofal maeth, gofal preswyl, er mwyn rhoi syniad o le mae pwysau busnes;
 - Rhagor o gefndir a gwybodaeth ynglŷn â'r data a roddir mewn graffiau a thablau;
 - Rhagor o enghreifftiau o astudiaethau achos i gynorthwyo'r pwyllgor ar ei ddealltwriaeth o brosesau, heriau a'r canlyniadau a gyflawnwyd.
- Gofynnodd aelodau am y data cam i fyny yn ogystal â'r data cam i lawr rhwng gwasanaethau Cymorth Cynnar a Gofal Cymdeithasol Plant.
- Gofynnodd aelodau i gael gwybodaeth ddilynol am y 51 o blant a ddychwelwyd adref o ganlyniad i'r project Cysylltu Teuluoedd.
- Roedd y pwyllgor yn dymuno derbyn y cynnig i gael yr adroddiad llawn am adolygiad yr SGC gan y gyfarwyddiaeth at ddibenion gwybodaeth.

- Gofynnodd y pwyllgor iddynt gael manylion canlyniadau'r 23 o leoliadau rhiant a babanod.

Rhagor o wybodaeth:

- Mynegodd y pwyllgor bryderon am y rhyddid sydd gan ysgolion yn y fframwaith ar gyfer addysgu Addysg Bersonol a Chymdeithasol a pharatoi pobl ifanc trwy ddatblygu sgiliau bywyd. Gofynnodd aelodau i archwilio eitem bosib ar y flaenraglen waith sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a sut maent yn dysgu sgiliau bywyd, gan gynnwys y fath feysydd a phrojectau ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion, Dechrau'n Deg a pha waith byddai'r trydydd sector yn ei wneud yn y pwnc hwn. Cytunwyd i anfon ffurflenni meini prawf at aelodau i ymchwilio ymhellach i'r eitem.

Gofynnodd y pwyllgor i lythyr gael ei lunio gan y pwyllgor i Lywodraeth Cymru yn nodi eu pryderon am y broblem genedlaethol gynyddol o fwyfwy o blant yn derbyn gofal yn ogystal â'r ansicrwydd o ran cyllid i ddarpariaeth Cymorth Cynnar yn y dyfodol oherwydd ei bod yn ddibynnol ar grantiau.

20. EITEMAU BRYD

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12:05

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD IAU, 24 MAI 2018

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 24 MAI 2018, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd CA Webster – Cadeirydd

JPD Blundell
DK Edwards
KJ Watts

NA Burnett
J Gebbie
AJ Williams

RJ Collins
M Jones

PA Davies
RME Stirman

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy, DG Owen, B Sedgebeer, LM Walters a/ac JE Williams

Swyddogion:

Sarah Daniel
Mark Galvin

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Gwahoddedigion:

Susan Cooper
Jackie Davies
Carmel Donovan
Cynghorydd Philip White

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion
Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cymunedol Integredig
Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

21. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-

Y Cynghorydd SK Dendy
Y Cynghorydd DG Owen
Y Cynghorydd B Sedgebeer
Y Cynghorydd LM Walters
Y Cynghorydd JE Williams

22. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd AJ Williams fuddiant personol yn Eitem Agenda 5, gan ei fod yn aelod o Grŵp Cymunedol Elusennol oedd wedi'i gefnogi'n ariannol gan G4S.

23. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2018 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir, ar yr amod y caiff y rheswm am ddatganiad o fuddiant y Cynghorydd Webster fel y cyfeirir ato yng Nghofnod 11 y Cofnodion hyn ei newid fel a ganlyn:-

'Fel Cadeirydd GMC yn Ysgol Heronsbridge.'

24. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad ar yr uchod i:

- a) Gyflwyno'r eitemau a flaenoriaethwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol gan gynnwys yr eitem nesaf i'w dirprwyo i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc hwn;
- b) Cyflwyno i'r Pwyllgor restr o eitemau posibl eraill i'w blaenoriaethu ac i roi sylwadau arnynt;
- c) Gofyn i'r Pwyllgor nodi eitemau eraill i'w hystyried gan ddefnyddio'r ffurflen meini prawf a bennwyd ymlaen llaw;
- ch) Ystyried a chymeradwyo'r adborth o gyfarfodydd blaenorol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1, a nodi'r rhestr o ymatebion, gan gynnwys unrhyw beth sydd dal yn weddill yn Atodiad A.

Atodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad oedd y flaenraglen waith gyffredinol ar gyfer y PCThPau oedd yn cynnwys y pynciau a flaenoriaethwyd gan y PCThP ar gyfer y set nesaf o PCThPau yn Nhabl A, yn ogystal â phynciau y ystyriwyd eu bod yn bwysig i'w blaenoriaethu yn y dyfodol yn Nhabl B. Mae hwn wedi'i greu o eitemau a awgrymwyd gan bob un o'r PCThCau un eu cyfarfodydd blaenorol yn ogystal â'r PCThP. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth a gynigiwyd gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol, manylion o ymchwil wedi'i wneud gan Swyddogion Craffu a gwybodaeth o gyfarfodydd Datblygu'r Flaenraglen waith rhwng Cadeiryddion Craffu a'r Cabinet.

Wedi ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad,

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad a'r wybodaeth ategol wedi'i hatodi ato ar ffurf Atodiadau A, B a C.

25. DIWEDDARIAD AR WAITH YM MHARC HMP YN DILYN GWEITHREDU DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014, GAN GYNNWYS CYFRANIAD Y CARCHAR AT Y GYMUNED A GOBLYGIADAU CYFLAWNI DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU'R DDEDDF AR Y GYLLIDEB

Croesawodd y Cadeirydd y Gwahoddedigion i'r cyfarfod, gan gynnwys Pennaeth Ymyraethau Teulu o G4S. Yna cyflwyno Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yr adroddiad i aelodau a gwahoddodd gwestiynau gan y Pwyllgor. Nododd Aelod gynnwys yr adroddiad, ond roedd o'r farn ei bod yn annheg bod disgwyl i lefel y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru wedi'i roi i'r Awdurdod yn 2016/17 a 2017/18 i sefydlu a gweithredu gwasanaeth a thîm Ystâd Ddiogel leihau yn y dyfodol a'i rannu ymysg pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn rhan o Setliad Llywodraeth Leol cyffredinol. Teimlodd fod hyn yn annheg, o ystyried bod carcharau yn Wrecsam, Sir Fynwy, Caerdydd, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr yn unig. Nid oedd rhaid ardaloedd awdurdod lleol eraill gefnogi ystadau diogel felly. Golygodd hyn fod disgwyl i lefel y cyllid ar gyfer CBSP yn 2018/19 leihau o fwy na 200k i 18k, sy'n lleihad sylweddol. Cefnogwyd y farn hon gan hol aelodau'r Pwyllgor.

Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gyda'r sylwadau a ychwanegodd fod yr awdurdod lleol wedi bod o'r farn y byddai'r lefel gychwynnol o gyllid a roddir at y diben hwnnw yn parhau i gael ei rhoi mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Ychwanegodd fod y grŵp Is-grant Dosbarthu wedi'i sefydlu gyda chynrychiolaeth o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ogystal ag o CLILC a Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob dau fis, ac roedd y pwnc ynghylch cyllid i gefnogi ystadau diogel awdurdodau lleol Cymru yn y dyfodol yn cael ei drafod, a meddyliodd y dylid ei rannu ar sail lefel o boblogaeth lle bo Awdurdod Lleol yn cefnogi darpariaeth ofal

cymdeithasol i garcharwyr dan drefniant ystâd ddiogel. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei bod yn obeithiol y gallai'r grŵp hwn ddatrys rhywbeth a fyddai'n arwain at Ben-y-bont yn derbyn mwy o gyllid yn y d'fodol, gobeithio.

Gofynnodd aelod sut mae Parc Prison yn wahanol i garchar gwladol

Dywedodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion mai carchar Categori B oedd Carchar Parc, mae gan bob carchar lefelau poblogaeth gwahanol gyda gwahanol fathau o droseddwyr yno, yn gyffredinol roedd gan y carcharwyr yng Ngharchar Parc yn Ne Cymru ddedfrydau hirach o'u cymharu â charcharau eraill.

Ychwanegodd y cynrychiolydd o G4S y gall Carchar Parc roi lle i garcharwyr Categori A, felly gall roi lle i garcharwyr o'r lefel diogelwch uchaf, ac mae carcharwyr yno ar hyn o bryd sy'n cwblhau dedfrydau oes. Ond yn gyffredinol, mae'r carchar yn rhoi lle i droseddwyr tymor canolog a hir dymor, ac ail-droseddwyr yn fwy na thebyg. Mae hefyd gan rai o'r carcharwyr hyn anghenion cymhleth y mae angen eu rheoli'n ofalus. .

Gofynnodd Aelod ba ganran o'r carcharwyr yng Ngharchar Parc sy'n dod o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ac yna'n ymgartrefu yn yr ardal pan ddaw eu dedfryd i ben. . Gofynnodd hyn, gan y gallai effeithio ar y cyllid a ddyrennir o ran ystadau diogel os oes angen cymorth arnynt ar ôl gadael y carchar.

Dywedodd Pennaeth Ymyraethau Teulu o G4S y gallai gael rhywfaint o ddata y tu allan i'r cyfarfod ac adborth i'r Aelodau.

Ychwanegodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gefnogi troseddwyr yn y carchar ac allan ohono, ni waeth a ydynt wedi dod o'r tu mewn i'r Fwrdeistref Sirol neu tu allan ohoni. Penderfyniad yr unigolyn yw lle y bydd yn byw ar ôl iddo gael ei ryddhau, ac eto pe bai hyn o fewn y Fwrdeistref Sirol, byddai'r Gwasanaeth Cymdeithasol yn cefnogi'r unigolyn cyhyd ag sydd angen.

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y byddai cyn droseddwyr wrth gael eu rhyddhau yn derbyn budd-daliadau megis Cymhorthdal Incwm, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol amdanynt o hyd tra eu bod yn cael eu hadfer i wynebu bywyd bob dydd mewn cymuned, gan ei bod, yn aml, yn cymryd amser i'r unigolion hyn addasu i hyn, yn enwedig a ydynt wedi bod yn y carchar am amser hir.

Roedd aelod yn ymwybodol fod G4S, fel mater preifat, yn cael ei dalu i roi cartref i garcharwyr, ac ymholodd lle mae'r arian yn mynd a faint sy'n cael ei ddefnyddio yn y gymuned.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Cymunedol Integredig fod paragraff 4.4 yr adroddiad yn rhoi manylion am broiectau cymunedol helaeth a chysylltiadau cymunedol y mae Carchar Parc wedi'u datblygu.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar bod anghenion gofal cymdeithasol y bobl yn yr ystâd ddiogel yn cael eu bodloni gan y Gwasanaeth Cymdeithasol yn unol â gofynion deddfwriaethol. Ond, golyga'r lleihad yn y lefel o gyllid a geir y byddai cost eu hanghenion yn y dyfodol yn fwy na lefel y cyllid y byddai CBSP yn ei derbyn. Cyfunwyd hyn â'r ffaith mai sefydliad Categori B yw Carchar Parc, mae carcharwyr yno am hirach ac felly byddai angen i'r awdurdod lleol ariannu unrhyw anghenion cymorth a gofynion a allai fod ganddynt am hirach.

Gofynnodd aelod faint o garcharwyr y mae angen arnynt gymorth iechyd arbenigol yng Ngharchar Parc ar hyn o bryd.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Cymunedol Integredig am 70 o garcharwyr sy'n cael eu hasesu, mae angen cymorth corfforol arbenigol ar 27 ohonynt, mae angen cymorth iechyd meddwl ar 19 ohonynt, mae angen cymorth anabledd dysgu ar 5 ohonynt, mae 1 yn dioddef problemau meddygol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, tra bod angen rhywfaint o gymorth emosiynol a llesiant cyffredinol ar y gweddill. Mae cynlluniau gofal yn cael eu dylunio ar gyfer yr holl garcharwyr o'r fath y mae angen rhyw fath o gymorth meddygol arbenigol arnynt, ychwanegodd. Mae cynlluniau arbenigol eraill yn cael eu creu ar gyfer carcharwyr hefyd, er enghraifft mewn sgiliau bywyd ar gyfer yr adeg y cânt eu rhyddhau yn ôl i'r gymdeithas.

Teimlodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn data ar ofynion anghenion cymorth sydd ar waith ar gyfer carcharwyr yn Parc ers y 12 mis diwethaf, ynghyd â'r llinellau a nodir uchod.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth Cymunedol Integredig y byddai'r trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd Aelod pa ddulliau y mae staff yng Ngharchar Parc yn eu defnyddio i gadw carcharwyr yn iach.

Cyfeiriodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion at baragraff 4.4 yr adroddiad, a dywedodd fod hyn yn cynnwys cynnal amrywiaeth o ddsbarthiadau cadw'n heini, cyrsiau cerdded a maeth, gan gynnwys dosbarthiadau colli pwysau wythnosol i fynd i'r afael â materion gorbwysedd. . Cynhaliwyd y rhain dan oruchwyliaeth staff gydag arbenigedd meddygol priodol. Ychwanegodd fod staff y carchar a'r tîm ystâd ddiogel yn gweithio'n effeithiol i gynnal amrywiaeth o fentrau cymorth iechyd a llesiant

Ychwanegodd Pennaeth Ymyraethau Teulu o G4S ei fod wedi'i gyflogi yng Ngharchar Parc ers iddo agor yn 1997, a hyd yn oed wrth ystyried natur carchar, mae Parc wedi'i gydnabod am ei ffyrdd arloesol o gadw carcharwyr yn actif, a chyda chymorth y tîm o CBSP mae wedi ennill gwobrau am fentrau gwahanol y mae wedi bod yn rhan ohonynt sy'n cefnogi carcharwyr a'u teuluoedd, ac mae hyn yn cynnwys carcharwyr gydag anghenion cymhleth.

Gofynnodd Aelod yn nodi bod disgwyl i'r cyllid grant Ystâd Ddiogel ostwng yn sylweddol, a yw'r cymorth y mae CBSP yn ei roi yn rhan o'r carchar, yn fwy na'r hyn sydd ei angen yn statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Pe bai hyn yn wir, teimlodd na ellid parhau gyda hyn yn y dyfodol o ganlyniad i'r lefel o gyllid wedi'i lleihau'n sylweddol y mae disgwyl i'r Awdurdod ei derbyn.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod swm cychwynnol y cyllid grant o £236k gan Lywodraeth Cymru wedi datblygu'r tîm Ystâd Ddiogel yn y carchar gyda'r cyllid uchod ar sail barhaus mewn cof. , Er mwyn rhoi cymorth Gofal Cymdeithasol i garcharwyr, a chyda'r cyllid hwn yn cael ei leihau'n fawr, byddai hyn, yn yr hirdymor, yn lleihau lefel y cymorth y gallai'r Awdurdod ei roi, er y byddai'n dal i roi'r hyn y mae ei angen arnynt.

Ychwanegodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Integredig fod canllawiau dan y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol roi cymorth i garcharwyr wedi'u rhyddhau, ac mewn amgylchiadau lle bod carcharwyr yn cael eu cartrefi yn y Fwrdeistref Sirol, maent yn dod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol 12 wythnos cyn eu rhyddhau.

Teimlodd Aelod y dylid ystyried, dan MTFS y Cyngor, edrych ar gyllid ategol at y diben o ddarparu'r Ystâd Ddiogel yng ngolwg lefel y cyllid wedi'i leihau gan Lywodraeth Cymru. Nododd hefyd fod Carchar Parc wedi bod yn cymryd mwy o garcharwyr yn ddiweddar nag y mae wedi mewn blynyddoedd diweddar. Roedd hefyd bryderon ganddo y gallai carcharwyr gael eu blaenoriaethu i gael llety ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, ar draul achosion blaenoriaeth eraill sydd am gael cartrefi, megis teuluoedd un rhiant. Yn olaf, plediodd i sefydliadau'r sector preifat gan gynnwys G4S am eu cymorth parhaus tuag at fentrau cymunedol, er enghraifft yr Ardal Gyhoeddus. Nododd y rhestr o brojectau cymunedol, cysylltiadau cymunedol a gwaith arall y mae'r Carchar wedi'i ddatblygu (fel y dangosir ym mharagraff 4.4. yr adroddiad), ond teimlodd fod y rhain yn ansylweddol, ac y gellir cyfrannu mwy o'r carchar o bosibl i gefnogi'r gymuned. Cytunodd aelod arall â sylwadau hyn a theimlodd hefyd nad oes digon yn cael ei wneud gan Garchar Parc i fuddio'r gymuned leol, ac y gellir rhoi mwy o gymorth yn hyn o beth.

Cadarnhaodd Pennaeth Ymyraethau Teulu o G4S fod 800 o garcharwyr yn y carchar pan agorodd yn gyntaf. Mae'r rhif hwn bellach wedi cynyddu i 1700, felly mae bellach galw mwy ar adnoddau carchar nag o'r blaen. Ychwanegodd fod Carchar Parc yn gwneud mwy na'r disgwyl o ran cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned leol, er nad oes rhaid iddo. Enghreifftiau o hyn yw gwasanaeth bws i deuluoedd ymweld â'u perthnasau yn y carchar. Mae hyn ar ei ben ei hun yn costio swm pum ffigur bob blwyddyn na fyddai carchar gwladol yn ei ddarparu fel arfer. Mae cynlluniau eraill mae'r carchar yn rhan ohonynt megis cefnogi Sgowtiaid, Gwobr Dug Caeredin, Ambiwllans Sant Ioan, y Cadetiaid, y Gwobr Cyflawnwr Ifanc a digwyddiadau'r Pasg a'r Nadolig. Ychwanegodd y byddai'n fwy na fodlon cyfarfod â'r Aelod Lleol y tu allan i'r cyfarfod, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'i phryderon hi a phryderon Aelodau eraill ynghylch hyn.

Gofynnodd Aelod i'r Gwahoddedigion a yw carcharwyr yng Ngharchar Parc yn derbyn digon o gymorth a thriniaeth feddygol am unrhyw gyflwr meddygol penodol a allai fod ganddynt. Gofynnodd hefyd a yw unrhyw ofynion cymorth meddygol bryd ar gael, heb unrhyw oedi i'r rheiny y mae eu hangen arnynt, a heb unrhyw oedi.

Cadarnhaodd Pennaeth Ymyraethau Teulu o G4S eu bod ar gael a bod ansawdd y cymorth meddygol ar gyfer carcharwyr wedi symud ymlaen a gwella yn ystod y 6 neu 7 o flynyddoedd diwethaf. Ychwanegodd fod gofal lleddfol hefyd ar gael yn y carchar, os yw carcharwyr sydd â salwch marwol am aros yno gyda'u teuluoedd uniongyrchol yn eu cwmni, yn lle mynd i'r ysbyty.

Teimlodd Aelod y byddai o fudd pe bai'r Carchar, yn ogystal â gweithio â'r Gwasanaeth Cymdeithasol, hefyd yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector eraill, gyda'r bwriad o edrych at gynnig cyfleoedd ar gyfer gwella sgiliau carcharwyr er mwyn eu helpu i fanteisio ar gyfle hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Byddai cyfleoedd o'r fath yn eu rhwystro rhag aildroseddu, teimlodd.

Dywedodd Pennaeth Ymyraethau Teulu o G4S pan fo carcharwyr yn cae eu rhyddhau 'Ar Drwydded', y rhoddir projectau iddynt eu gwneud, megis adnewyddu mynwentydd a dylunio meysydd chwarae ysgolion, fel rhagflaenydd i fynd ymlaen i fanteisio ar hyfforddiant a chyflogaeth, gobeithio.

Argymhellion

Roedd yr Aelodau yn siomedig gyda phenderfyniad wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i ddosbarthu cyllid grant i 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gofal cymdeithasol ar gyfer yr ystâd ddiogel, yn lle dosbarthiad penodol i'r awdurdodau hynny gyda charcharau. Felly argymhellodd y Pwyllgor fod llythyr yn cael ei anfon i'r Adran Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn dweud y dylent ystyried y dyraniad cyllid Grant gan

fod CBSP wedi'i roi dan anfantais ariannol annheg gan fod ganddo Ystâd Ddiogel o fewn ei ffiniau.

Argymhellodd y Pwyllgor fod CBSP yn mabwysiadu "Dull Un Cyngor" a bod Swyddogion o bob Cyfarwyddiaeth yn cyfarfod gyda G4S i ymchwilio i'r cyfle i'r rheiny yn yr Ystâd Ddiogel allu cyfrannu at yr Ardal Gyhoeddus i gael effaith gadarnhaol uniongyrchol yn y gymuned.

Argymhellodd yr Aelodau y dylai CBSP gyhoeddi'n well y busnesau lleol sy'n cynnig cymorth a chyfleoedd am swyddi i gyn droseddwr.

Argymhellodd yr Aelodau hefyd fod yr eitem hon yn aros ar y Flaenraglen Waith a'i thrafod ar ôl blwyddyn.

Gwybodaeth Bellach

- Pa ganran o boblogaeth carchar Parc oedd yn byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr cyn iddynt ddod yn breswlydd cyffredin CBSP o ganlyniad i fod yn yr Ystâd Ddiogel.
- Gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad o'r rheiny yn yr Ystâd Ddiogel y mae angen gofal cymdeithasol gan CBSP arnynt a gofynnodd eu bod yn cynnwys yr ystod oedran a pha becynnau gofal y mae eu hangen arnynt.
- Beth yw'r costau cyfan ar CBSP i ddarparu'r gwasanaeth cyfredol ar gyfer y carchar. Gofynnodd yr Aelodau fod y dadansoddiad yn cynnwys costau cyflog blynyddol y tîm Ystâd Ddiogel, costau blynyddol darparu offer a chost flynyddol darparu gofal personol y mae CBSP yn ei thalu i dîm meddygol G4S ar hyn o bryd.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd i dderbyn costau mewn perthynas â darpari gofal cymdeithasol yng nghlinig diogel Caswell ym Mhen-y-fai.

26. ENWEBU I BANEL TROSOLWG A CHRAFFU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad i enwebu Aelod i sefyll ar Banel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cynghorydd KJ Watts i sefyll fel Aelod ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 ar Banel Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

27. ADRODDIAD ENWEBU HYRWYDDWR RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad a ofynnwyd i'r Pwyllgor enwebu Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel Gwahoddai i gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cynghorydd J Gebbie i sefyll fel Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 ar Bwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet yn rhinwedd Gwahoddai.

28. EITEMAU BRYD

Dim.
Daeth y cyfarfod i ben am 11:42

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

REPORT TO THE SUBJECT OVERVIEW AND SCRUTINY COMMITTEE 1

5 SEPTEMBER 2018

REPORT OF THE HEAD OF LEGAL AND REGULATORY SERVICES

FORWARD WORK PROGRAMME UPDATE

1. Purpose of the Report

- a) To present the items prioritised by the Corporate Overview and Scrutiny Committee including the next item delegated to this Subject Overview and Scrutiny Committee;
- b) To present the Committee with a list of further potential items for comment and prioritisation;
- c) To ask the Committee to identify any further items for consideration using the pre-determined criteria form;
- d) To consider and approve the feedback from the previous meetings of the Subject Overview and Scrutiny Committee 1 and note the list of responses including any still outstanding at Appendix A.

2. Connection to Corporate Improvement Objectives / Other Corporate Priorities

- 2.1 The key improvement objectives identified in the Corporate Plan 2016–2020 have been embodied in the Overview & Scrutiny Forward Work Programmes. The Corporate Improvement Objectives were adopted by Council on 1 March 2017 and formally set out the improvement objectives that the Council will seek to implement between 2016 and 2020. The Overview and Scrutiny Committees engage in review and development of plans, policy or strategies that support the Corporate Themes.

3. Background

- 3.1 Under the terms of Bridgend County Borough Council's Constitution, each Overview and Scrutiny Committee must publish a Forward Work Programme (FWP) as far as it is known.
- 3.2 An effective FWP will identify the issues that the Committee wishes to focus on during the year and provide a clear rationale as to why particular issues have been selected, as well as the approach that will be adopted; i.e. will the Committee be undertaking a policy review/ development role ("Overview") or performance management approach ("Scrutiny").

Feedback

- 3.3 All conclusions made at Subject Overview and Scrutiny Committee (SOSC) meetings, as well as recommendations and requests for information should be responded to by Officers, to ensure that there are clear outcomes from each topic investigated.
- 3.4 These will then be presented to the relevant Scrutiny Committee at their next meeting to ensure that they have had a response.
- 3.5 When each topic has been considered and the Committee is satisfied with the outcome, the SOSC will then present their findings to the Corporate Overview and Scrutiny Committee (COSC) who will determine whether to remove the item from the FWP or to re-add for further prioritisation at a future date.
- 3.6 The FWPs will remain flexible and will be revisited at each COSC meeting with input from each SOSC and any information gathered from FWP meetings with Corporate Directors and Cabinet.

4. Current Situation / Proposal

- 4.1 Attached at **Appendix B** is the overall FWP for the SOSCs which includes the topics prioritised by the COSC for the next set of SOSCs in Table A, as well as topics that were deemed important for future prioritisation at Table B. This has been compiled from suggested items from each of the SOSCs at previous meetings as well as the COSC. It also includes information proposed from Corporate Directors, detail from research undertaken by Scrutiny Officers and information from FWP Development meetings between the Scrutiny Chairs and Cabinet.
- 4.2 The Committee is asked to first consider the next topic they have been allocated by the COSC in Table A and determine what further detail they would like the report to contain, what questions they wish Officers to address and if there are any further invitees they wish to attend for this meeting to assist Members in their investigation.
- 4.3 The Committee is also asked to then prioritise up to six items from the list in Table B to present to the COSC for formal prioritisation and designation to each SOSC for the next set of meetings.

Corporate Parenting

- 4.4 Corporate Parenting is the term used to describe the responsibility of a local authority towards looked after children and young people. This is a legal responsibility given to local authorities by the Children Act 1989 and the Children Act 2004. The role of the Corporate Parent is to seek for children in public care the outcomes every good parent would want for their own children. The Council as a whole is the 'corporate parent', therefore all Members have a level of responsibility for the children and young people looked after by Bridgend.

- 4.5 In this role, it is suggested that Members consider how each item they consider affects children in care and care leavers, and in what way can the Committee assist in these areas.
- 4.6 Scrutiny Champions can greatly support the Committee in this by advising them of the ongoing work of the Cabinet-Committee and particularly any decisions or changes which they should be aware of as Corporate Parents.

Identification of Further Items

- 4.7 The Committee are reminded of the Criteria form which Members can use to propose further items for the FWP which the Committee can then consider for prioritisation at a future meeting. The Criteria Form emphasises the need to consider issues such as impact, risk, performance, budget and community perception when identifying topics for investigation and to ensure a strategic responsibility for Scrutiny and that its work benefits the organisation.

5. Effect upon Policy Framework & Procedure Rules

- 5.1 The work of the Overview & Scrutiny Committees relates to the review and development of plans, policy or strategy that form part of the Council's Policy Framework and consideration of plans, policy or strategy relating to the power to promote or improve economic, social or environmental wellbeing in the County Borough of Bridgend. Any changes to the structure of the Scrutiny Committees and the procedures relating to them would require the Bridgend County Borough Council constitution to be updated.

6. Equality Impact Assessment

- 6.1 There are no equality implications attached to this report.

7. Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 Assessment

- 7.1 The Act provides the basis for driving a different kind of public service in Wales, with 5 ways of working to guide how public services should work to deliver for people. The following is a summary to show how the 5 ways of working to achieve the well-being goals have been used to formulate the recommendations within this report:

- Long-term - The approval of this report will assist in the Planning of Scrutiny business in both the short-term and in the long-term on its policies, budget and service delivery
- Prevention - The early preparation of the Forward Work Programme allows for the advance planning of Scrutiny business where Members are provided an opportunity to influence and improve decisions before they are made by Cabinet
- Integration - The report supports all the wellbeing objectives

- Collaboration - Consultation on the content of the Forward Work Programme has taken place with the Corporate Management Board, Heads of Service, Elected Members and members of the public
- Involvement - Advanced publication of the Forward Work Programme ensures that the public and stakeholders can view topics that will be discussed in Committee meetings and are provided with the opportunity to engage.

8. Financial Implications

8.1 There are no financial implications attached to this report.

9. Recommendations

9.1 The Committee is recommended to:

- (i) Approve the feedback from the previous meetings of the Subject Overview and Scrutiny Committee 1 and note the list of responses including any still outstanding at Appendix A;
- (ii) Identify any additional information the Committee wish to receive on their next item delegated to them by Corporate Overview and Scrutiny Committee and any other items in the overall FWP shown in Appendix B;
- (iii) Identify any additional items using the criteria form, for consideration on the Scrutiny Forward Work Programme.

K Watson
Head of Legal and Regulatory Services

Contact Officer: Scrutiny Unit

Telephone: (01656) 643695

E-mail: Scrutiny@bridgend.gov.uk

Postal Address Bridgend County Borough Council,
 Civic Offices,
 Angel Street,
 Bridgend.
 CF31 4WB

Background documents

None

| Date | Item | Members wished to make the following comments and conclusions: | Response/Comments |
|---|---|--|---|
| 13-May-2018 | Secure Estate | Members were disappointed at the decision made by Welsh Government to distribute grant funding across 22 Local authorities in Wales to provide a social care provision to the secure estate, as opposed to a specific distribution to those authorities with prison populations. The Committee therefore recommended that a letter be sent to the Department of Justice and Welsh Government stating that they should reconsider the Grant funding allocation as BCBC had been placed in an unfair financial disadvantage by having a secure estate within its boundary. | Chair of Committee to draft letter. In addition the interim 151 officer has made representations to the Welsh Government Decision Support Group |
| | | The Committee recommended that BCBC adopt a "One Council Approach" and officers from all directorates meet with G4S to investigate the opportunity of those in the Secure Estate being able to contribute to the public realm to have a direct positive impact in the community. | Noted |
| | | Members recommended that BCBC should better publicise the local businesses that offer support and job opportunities to ex-offenders. | Noted. Public relations advised accordingly |
| | | Members recommend that this item stay on the Forward Work Programme and revisit no sooner than 1 year | Noted |
| | | Further information requested | |
| | | What percentage of the prison population in Parc previously resided in Bridgend County Borough before they became an ordinary resident of BCBC as a result of being in the secure estate. | This information was requested from the prison, but unfortunately the prison do not collect data in this way. |
